Cyngor Cymuned Llangwyryfon

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Hydref 22 yn Festri Capel Tabor am 8 o'r gloch

Presennol : Islwyn Jones (Cadeirydd), Margaret Lewis, Fred Jones, Lyn Davies, Morgan Morgans, Peter Tandy, David Davies, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Japanese Knotweed
Daethpwyd i'r casgliad mai'r Eglwys sy'n gyfrifol am y rhan o'r hen fynwent lle mae'r chwyn hwn yn tyfu.
Darllenwyd llythyr oddi wrth y Cylch Meithrin yn gofyn am gyfraniad tuag at gost torri coeden a oedd yn tyfu yn yr hen fynwent wrth ymyl lle chwarae'r plant. Cyn ystyried y cais, awgrymwyd gofyn i'r Cylch Meithrin wneud cais am gyfraniad at Swyddogion yr Eglwys a Phwyllgor y Neuadd hefyd.

Gwefan y Cyngor
Mae'r wefan yn weithredol, ond bydd hyfforddiant y clerc yn parhau am beth amser eto wrth i ddeunydd newydd gael ei ychwanegu . Cwmni Gwerin wedi cyflwyno anfoneb am y gwaith am £450. Awdurdodwyd talu'r swm hwn a mynd ymlaen i hawlio'r grant oddi wrth y Cyngor Sir.

Sylwadau'r archwilwyr allanol.
Adroddodd y clerc iddi gael cyfarfod buddiol gydag Anthony Morgan, yr archwiliwr mewnol, ag iddo nodi'r sylwadau.

Arwyddion baw cŵn
Adroddwyd bod yr arwyddion a archebwyd wedi cael eu gosod mewn mannau pwrpasol ac wedi talu amdanynt - £30.

Gohebiaeth

1 Llythyr wrth Radio Beca yn gwahodd cynrychiolydd i gyfarfod yn Theatr Felinfach Medi 26 i drafod sut i gryfhau ein cymunedau Cymraeg. Y dyddiad wedi pasio.

2 Drafft Datganiad Polisi Gamblo
Hyd y gellid gweld, dim ond trwyddedu Loterïau Cymdeithasau Bach fyddai'n berthnasol i'r ardal yma, ac mae hynny'n cael ei ganiatáu os nad oes unrhyw ran o'r elw'n cael ei gadw er elw neu fudd preifat.

3 Hysbysiad am gyfarfod o Bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru nos Fercher Hydref 14. Y dyddiad wedi pasio.

4 Adroddiad ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu Hydref 14. Derbyniwyd er gwybodaeth.

5 Cais Cynllunio. Cynefin, Trefenter Adeiladu porth. Astudiwyd y cynlluniau ac ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad.

6 Newid yn nhrefniadau Archwilio Allanol. Grant Thornton o Bristol fydd yn gwneud y gwaith am y tair blynedd nesaf**.** Bydd rhai o'r gofynion yn newid a bydd adran newydd ar gyfer adolygu meysydd "thematig" Bydd newid hefyd i'r ffi archwilio.

7 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Oddi wrth Grŵp Prosiect Iechyd Meddwl i drafod gwella gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnig bod aelod o'r grŵp yn dod i siarad am y gwaith. Gofynnwyd i'r clerc geisio trefnu bod rhywun yn dod ar noson y cyfarfod nesaf o'r Cyngor

.

Hefyd llythyr wrth y Bwrdd yn sôn am gyfarfodydd i drafod y gwasanaethau iechyd lleol. Amgaewyd posteri i'w harddangos.

8 Hysbysiad am gau'r hewl yn Bronant ar Hydref 25 (Dydd Sul). Nodwyd.

9 Gwybodaeth a gwahoddiad i eisteddfod Ysgol Henry Richard, Tregaron, Hydref 22 a 23. Derbyniwyd er gwybodaeth.

10 Diwrnod ail-gylchu eitemau trydanol bychain. Gofynnwyd i'r clerc ateb i'r perwyl fod y gymuned yn rhy fach i wneud trefniant o'r fath yn werth chweil.

11 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys cynigion fydd yn dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Derbyniwyd.

12 Llythyr yn gofyn caniatâd i roi diffibriliwr yn safle arhosiad bws Llangwyryfon, ac un arall yng nghiosg ffôn Moreia. Pasiwyd i roi'r caniatâd. Codwyd mater yswiriant am yr offer yma a fyddai o fewn i eiddo'r Cyngor, a'r angen am wneud ymholiadau pellach gyda chymunedau eraill ynglŷn â hyn.

Materion ariannol

Apêl am gefnogaeth ariannol oddi wrth Eisteddfod Llangollen. Pasiwyd i'w gadw mewn golwg gydag apeliadau eraill erbyn daw'r amser i ddosbarthu rhoddion.

Awdurdodwyd prynu torch pabi coch ar gyfer Dydd y Cofio. Y gost fydd £17.

Awdurdodwyd talu cyflog y clerc o £200 i fyny at ddiwedd Hydref.
Awdurdodwyd talu bil trydan Scottish Power am £42. 71
Cyfriflen ddiweddaraf y banc yn dangos cyfanswm o £2598.46 ar 30 Medi.

Unrhyw Fater Arall

Cais gan y clerc i atgyweirio'r hysbysfwrdd wrth y gysgodfan bysiau. Gofynnwyd i Peter Tandy ail-osod y drws arno.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Tachwedd 19, i'w gynnal yn festri Capel Tabor eto, gan na fyddai'r Neuadd ar gael.